PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Arholiadau Ysgoloriaethau**
**a Gwobrau Teilyngdod**
**Prifysgol Aberystwyth**
**Chwefror 2026**

# Cymdeithaseg

Amser: 1.5 awr (90 munud)

**Dylid rhoi cynnig ar DDAU gwestiwn**

---

1. A yw crefydd yn fath o reolaeth? Trafodwch gan ddefnyddio mwy nag un persbectif cymdeithasegol.
2. Sut y gall damcaniaeth labelu esbonio canlyniadau addysgol gwahaniaethol mewn ysgolion?
3. Ydych chi'n meddwl y gall Cymdeithaseg drawsnewid y gymdeithas? Esboniwch eich ateb gan ddefnyddio un enghraifft gyfoes.
4. Trafodwch sut y gellir ystyried trosedd fel ffenomen ryweddedig.
5. Gan ddefnyddio damcaniaeth gymdeithasegol, esboniwch sut mae gwybodaeth yn cynhyrchu pŵer?
6. A all cymdeithasegwyr fod yn ddiduedd fyth? Atebwch gan gyfeirio at athroniaeth gwyddoniaeth.
7. Yn eich barn chi, pa bersbectif cymdeithasegol fu fwyaf defnyddiol wrth astudio Cymdeithaseg Safon Uwch? Rhowch gyfiawnhad dros eich ateb.
8. ‘Mae’r Cyfryngau Cymdeithasol yn atgyfnerthu cynrychiolaethau normadol’. Trafodwch y datganiad hwn yn feirniadol, gan ddefnyddio enghreifftiau mewn perthynas â NAILL AI hil/ethnigrwydd NEU ddosbarth NEU rywedd.
9. Beth yw'r sefydliadau a'r strwythurau cymdeithasol allweddol sydd wedi helpu i ddiffinio rôl dynion yn y gymdeithas? Sut mae dynion wedi ceisio diffinio ac ailddiffinio'r rolau hyn?
10. Beth sy'n bwysicach i ddisgyblaeth Cymdeithaseg, strwythur cymdeithasol neu alluedd?